# MESUR PLANT A THEULUOEDD (CYMRU) 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

#### *Adran 38 Anghymhwyso rhag cofrestru*

96. Mae adran 38 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n pennu o dan ba amgylchiadau y bydd person wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru. Mae is-adran (3) yn nodi’r amrediad o amgylchiadau y ceir eu cynnwys mewn rheoliadau. Nid yw’r rhestr o amgylchiadau yn rhestr hollgynhwysfawr.

97. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau anghymhwyso person rhag cofrestru os yw rhywun sy'n byw gyda'r person hwnnw neu rywun sy'n gweithio ar ei aelwyd wedi ei anghymhwyso.

98. Mae is-adran (5) yn darparu, pan fo person wedi ei anghymhwyso, y caiff wneud cais wedyn i Weinidogion Cymru yn gofyn i’w anghymhwysiad gael ei ollwng. Y gofynion yw bod y person wedi datgelu’r anghymhwysiad i Weinidogion Cymru a bod Gweinidogion Cymru yn cydsynio mewn ysgrifen iddo beidio â chael ei anghymhwyso.